**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD**
**21 MAI 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Gwepra, ddydd Mawrth, 21 Mai 2019.

**YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Patrick Heesom, Ray Hughes, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Bob Connah (ar ran Veronica Gay) ac Ian Dunbar (ar ran Cindy Hinds)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad; y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd; Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); a Phrif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi).

Ar gyfer cofnod rhif 5
Tom Woodall, Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol; Steve Lewis, Ceidwad, a Helen Mrowiec, Arweinydd Tîm - Safleoedd

Ar gyfer cofnodion rhif 6 a 7
Anthony Stanford, Rheolwr Cludiant, a Sue Price, Swyddog Polisi Priffyrdd

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor fod o'r Grŵp Annibynnol newydd.

Enwebwyd y Cynghorydd Ray Hughes gan y Cynghorydd Paul Shotton a'i eilio gan y Cynghorydd David Evans.

Ni chafwyd eilydd ar gyfer enwebiad y Cynghorydd Haydn Bateman ar gyfer y Cynghorydd Patrick Heesom.

Ni chafwyd enwebiadau pellach.

Ar ôl pleidlais, cytunwyd bod y Cynghorydd Ray Hughes yn cael ei benodi'n Gadeirydd. Yna cafwyd gohiriad bychan.

Ar ôl dychwelyd i'r cyfarfod, eglurodd yr Hwylusydd bod Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd wedi egluro mai'r Cynghorydd Heesom oedd unig enwebiad y grŵp Annibynnol newydd ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor. Os na eiliwyd yr enwebiad, byddai'r Cynghorydd Hughes yn cael ei benodi'n Gadeirydd

ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig a byddai'r eitem yn cael ei hailystyried yn y cyfarfod nesaf.

Gan na eiliwyd enwebiad y Cynghorydd Heesom, cytunodd y Pwyllgor y dylid penodi'r Cynghorydd Hughes fel Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn.

Eglurodd y Cynghorydd Hughes y byddai newid yn y balans gwleidyddol ers y Cyfarfod Blynyddol yn golygu bod nifer y seddi Annibynnol Newydd ar y Pwyllgor yn gostwng i un ar ôl cyfarfod nesaf y Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cynghorydd Ray Hughes yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig a bod yr eitem yn cael ei hailystyried yn y cyfarfod nesaf.

(Ar y pwynt hwn, cadeiriodd y Cynghorydd Hughes weddill y cyfarfod)

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Sean Bibby y Cynghorydd David Evans fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ian Dunbar. Ni chafwyd unrhyw enwebiad arall.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd David Evans yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am flwyddyn y cyngor.

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

## 4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2019.

Materion yn Codi

Cofnod rhif 58: Dyffryn Maes Glas – Eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod y Cytundeb Rheoli wedi'i dderbyn gan y Bwrdd a byddai'n cael ei lofnodi.

Cofnod rhif 59: Gorfodi Amgylcheddol – Nododd y Cynghorydd Haydn Bateman gwynion gan ddau o gerddwyr cŵn a oedd wedi derbyn rhybuddion cosb benodedig am adael eu cŵn oddi ar eu tennyn ar y caeau chwarae ar y Rec yn yr Wyddgrug. Er ei fod yn cytuno gyda'r polisi i wahardd cŵn o gaeau chwaraeon wedi'u marcio, nid oedd arwyddion i nodi hyn ar y safle ac mae'r marciau ar y cae wedi gwisgo. Awgrymodd yn yr amgylchiadau hyn, y gallai'r swyddogion roi cyngor yn lle cyflwyno rhybudd cosb.

Nododd Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) bod argymhelliad y Pwyllgor i wahardd cŵn o gaeau chwarae / caeau chwaraeon - a gefnogwyd gan y Cabinet - wedi cydnabod yr angen i gydbwyso annog cerddwyr cŵn cyfrifol ac ystyried diogelwch plant. Dros gyfnod o naw mis, roedd y Cyngor wedi cymryd amser i addysgu aelodau'r cyhoedd, yn hytrach na chyflwyno cosb, i godi ymwybyddiaeth o'r polisi a gosod arwyddion ar y safleoedd. Ar ôl disodli nifer o arwyddion oedd wedi'u difrodi, cedwir cofnod ffotograffig fel tystiolaeth bod arwyddion wedi'u gosod. Cytunodd y Prif Swyddog y byddai'n ymchwilio'r mater a darparu copi o'r lluniau ar gyfer y safle hwn i'r Cynghorydd Bateman. Eglurodd pe bai'r Pwyllgor yn dymuno ailystyried y polisi, gellir cynnwys eitem ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Nododd y Cynghorydd Owen Thomas bod caeau chwaraeon mewn pentrefi gwledig yn aml heb eu marcio a gofyn eu bod yn ailystyried y polisi. Eglurodd yr Hwylusydd bod yr eitem wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd.

Dywedodd y Prif Swyddog a'r Cynghorydd Carolyn Thomas yr ymgynghorwyd â'r Cynghorau Tref a Chymuned ynglŷn â'r polisi cyn ei weithredu. Pe baent yn penderfynu gwahardd cŵn o gaeau sy'n eiddo iddynt yn ddiweddarach, gallant wneud cais ysgrifenedig i'r Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 5. PARC GWEPRA

Darparodd Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol gyflwyniad ar y cyd gyda Steve Lewis (Ceidwad) a Helen Mrowiec (Arweinydd Tîm – Safleoedd) ar weithgareddau'r gorffennol a datblygiadau'r dyfodol i annog y defnydd cymunedol gorau o Barc Gwepra. Roedd y fideo a'r cyflwyniad yn ymwneud â'r canlynol:

- Parc Gwepra 2015-19
- Gwelliannau 2016-17 i Lwybr Pren Gwepra
- 'Park Run' Gwepra
- Grŵp Rhiant a Phlentyn Plas Derw
- Perllan addysgol Gwepra
- Gardd berlysiau
- Gwirfoddolwyr
- Digwyddiadau gyda Chyfeillion Parc Gwepra
- Budd-ddeiliaid
- Gwaith cynefin

Yn ystod y cyflwyniad, amlygodd y swyddogion bwysigrwydd gwaith partneriaeth i gynorthwyo i gynnal a datblygu Parc Gwepra i reoli'r cynnydd mewn nifer yr ymwelwyr. Roedd mynediad, meysydd parcio ac ardaloedd chwarae ymysg y cynlluniau ar gyfer gwelliant yn y dyfodol. Nodwyd na fyddai llwyddiant Parc Gwepra yn bosibl heb gyfraniadau gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol.

Wrth ganmol y cynnydd a wnaed ym Mharc Gwepra fel amgylchedd awyr agored naturiol poblogaidd, croesawodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y

cynlluniau ar gyfer gwelliannau pellach. Roedd hefyd yn cydnabod y gwaith gwerthfawr a wnaed gan Geidwaid ar yr holl safleoedd ar draws Sir y Fflint.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Chris Dolphin y tîm am eu cyflawniadau a chymharu â Dyffryn Maes Glas a oedd hefyd yn amgylchedd naturiol. Fodd bynnag, eglurodd bod y ddau safle'n cael eu rhedeg yn wahanol a bod yn rhaid talu i gael mynediad i rai ardaloedd yn Nyffryn Maes Glas.

Nododd y Cynghorydd Carolyn Thomas ei bod yn bwysig nodi bod yr ystod o barciau ar draws Sir y Fflint yn darparu gofod awyr agored naturiol am ddim i deuluoedd eu mwynhau. Roedd mynediad i Ddyffryn Maes Glas am ddim heblaw am yr ardal wedi'i hamgáu.

Yn ystod y drafodaeth, canmolodd sawl Aelod yr ymdrechion a wnaed i drawsnewid Parc Gwepra; gwaith y swyddogion i dderbyn cyllid grant, cyfraniadau gwirfoddolwyr a Chyfeillion Parc Gwepra. Ategwyd at hyn gan y Cynghorydd Sean Bibby a nododd bod y parc yn rhan o Shotton ynghyd â Chei Connah. Cyfeiriodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin at yr effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles.

Roedd y Cynghorydd Derek Butler hefyd yn cefnogi'r gwaith a nododd bod creu parc sglefyrddio yn fenter a groesawyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Bod y Pwyllgor yn llongyfarch yr holl rai sydd wedi cyfranogi at lwyddiannau rhagorol ym Mharc Gwledig Gwepra.

## 6. LLWYBR BEICIO'R WYDDGRUG I FRYCHDYN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad yn ceisio argymhelliad i'r Cabinet i gyflwyno cynllun llwybr beicio'r Wyddgrug i Frychdyn ar gyfer cyllid Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, roedd y llwybr cyswllt wedi'i nodi fel coridor strategol allweddol ar Fap Rhwydwaith Integredig y Cyngor a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cyllid a gafwyd yn 2018/19 wedi galluogi'r Cyngor i gomisiynu gwaith ar werthusiad o ddewisiadau llwybr a gwblhawyd yn awr, ac roedd dyluniad manwl y cynllun bron â'i orffen.

Roedd y cynllun yn rhan o Strategaeth Trafnidiaeth Integredig y Cyngor - a oedd yn ceisio hwyluso integreiddio'r holl ddulliau o deithio (cerdded, beicio, bws a rheilffordd) i wella mynediad at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau hanfodol. Byddai diweddariad ar y Strategaeth yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf. Roedd cyhoeddiadau diweddar ar gyllid grant trafnidiaeth lleol LlC yn cynnwys £5.4m ar gyfer Sir y Fflint (un o'r setliadau uchaf yng Nghymru) i'w fuddsoddi yn y rhwydwaith trafnidiaeth lleol ynghyd â darparu buddion hir dymor a chyfleoedd cyflogaeth.

Eglurodd y Rheolwr Cludiant mai nod y cynllun llwybr beicio oedd cysylltu cymunedau'r Wyddgrug, Bwcle, Penyffordd, Brychdyn, Saltney a Sandycroft wrth

ddarparu cysylltiadau i orsafoedd rheilffordd presennol Bwcle a Phenyffordd i ddarparu mynediad cynaliadwy at brif safleoedd cyflogaeth.

Darparodd y Swyddog Polisi Priffyrdd drosolwg o’r llwybr beicio arfaethedig gan gynnwys y dewisiadau sydd ar gael a'r datrysiadau rheoli traffig lle bo'n briodol. Roedd y llwybr hefyd yn darparu cyswllt da gyda Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a rheilffordd Wrecsam – Bidston.

Eglurodd y Prif Swyddog y gwnaed cynnydd da i gwblhau llwybr beicio Saltney a oedd yn un o'r cysylltiadau ar y llwybr. Byddai rhannu manylion y llwybr yn gymorth i godi ymwybyddiaeth o’r cynllun arloesol i gysylltu cymunedau a darparu datrysiad cludiant cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Wrth drafod llwyddiant y Cyngor i sicrhau cyllid ar gyfer cynlluniau o dan Deithio Llesol a Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau, canmolodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y swyddogion a nodi y gallai’r llwybr beicio fod yn gynllun blaenllaw ar gyfer y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Siaradodd y Cynghorydd Paul Shotton o blaid y cynllun a fyddai o fudd i’r nifer cynyddol o feicwyr. Croesawodd y cysylltiadau gyda rheilffordd Wrecsam - Bidston a nododd bod y Prif Swyddog yn aelod o'r grŵp llywio hwnnw. O ran cyllid, eglurodd y Cynghorydd Carolyn Thomas bod y cyllid ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb wedi’i dderbyn a gellir defnyddio rhywfaint o'r cyllid eleni ar gyfer darnau o'r llwybr. Byddai ceisiadau pellach yn cael eu cyflwyno ar ôl cwblhau’r dyluniad manwl.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Chris Dolphin y ddau Brif Swyddog ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Tynnodd sylw at bwysigrwydd cysylltedd gyda phentrefi gwledig, er enghraifft Gorsedd i Bantasaph. Eglurodd y Cynghorydd Carolyn Thomas bod cyllid grant yn amodol ar feini prawf. Wrth gydnabod anghenion cymunedau gwledig, eglurodd bod ffrydiau cyllid gwahanol yn cael eu harchwilio i ddarparu cysylltiadau bws i ardaloedd gwledig.

Croesawodd y Cynghorwyr Joe Johnson a Bob Connah y dewisiadau i fynd i'r afael â phryderon diogelwch yn Sandycroft. Eglurodd y Cynghorydd Connah bod y darn rhwng y Bridge Inn a'r gylchfan ger ffatri'r A380 yn fater penodol sydd angen ei ystyried yn ofalus. Eglurodd Swyddog Polisi Priffyrdd bod dewisiadau ar gyfer cyfleuster oddi ar y ffordd yn cael ei drafod ac fod y darn yma yn un o'r ardaloedd lle nad oedd modd osgoi trafodaethau perchnogaeth tir.

Ar ran Fforwm Mynediad Lleol ar y Cyd Sir y Fflint a Wrecsam, gofynnodd y Cynghorydd David Evans bod cyfleoedd ar gyfer llwybrau ceffyl yn cael eu hystyried lle bo modd. Nododd hefyd bod y gylchfan dros yr A55 rhwng Penyffordd a Brychdyn yn ardal broblemus a gofynnodd am y posibilrwydd o ddarparu pont droed i gerddwyr/. Yn absenoldeb cysylltiad rhwng Saltney Ferry a Sandycroft, eglurodd Swyddog Polisi Priffyrdd er nad oedd yn rhan o’r cynllun llwybr beicio, roedd wedi’i gynnwys ar Fap Rhwydwaith Integredig fel rhan o gynllun 15 mlynedd y Cyngor ar gyfer yr ardal ehangach. Byddai cyfleoedd yn y dyfodol i ymgeisio am gyllid i ddod â’r llwybrau hynny i ddefnydd. Cytunodd y swyddogion y byddent yn ystyried y potensial ar gyfer llwybr troed / llwybr beicio ar River Lane. Wrth drafod llwybrau ceffyl, siaradodd y swyddog am gyfyngiadau megis perchnogaeth tir ac arwyneb.

Siaradodd y Cynghorydd Haydn Bateman o blaid argymell y cynllun, yn enwedig llwybr A5118. Mewn ymateb i geisiadau am ragor o wybodaeth ar ardaloedd penodol, nododd Swyddog Polisi Priffyrdd y byddai’r dyluniad manwl yn unol â chanllaw dylunio Teithio Llesol a byddai’n cael ei rannu gyda'r Pwyllgor ar ôl ei gwblhau.

Wrth ddiolch i’r swyddogion am yr adroddiad, siaradodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin am y cysylltiadau gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynghyd â'r amgylchedd a newid hinsawdd.

Cydnabu’r Cynghorydd Chris Bithell bod mwy o alw am lwybrau beicio ar draws y Sir drwy ddull graddol. Croesawodd ymdrechion y swyddogion i oresgyn problemau i gyflawni cynllun creadigol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Owen Thomas bryderon am ffordd B5129 Sandycroft i Airbus a nododd y gellir cynnwys y llwybr troed ar hyd yr afon yn y llwybr.

Croesawodd y Cynghorydd Derek Butler y mentrau sy'n cynorthwyo i oresgyn y rhwystrau sy'n atal cyflogaeth a chynyddu cyfleoedd cymudo gyda chysylltiadau rheilffordd. Cyfeiriodd at y problemau sy'n deillio o lwybrau amlddefnydd a'r angen ar gyfer addysg a pherswâd.

Nododd y Cynghorydd Mike Allport nad oes cyswllt diogel rhwng Higher Kinnerton a ffatri Airbus, sef y prif gyflogwr agosaf.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Evans, cytunodd y swyddog y byddai’n gwirio’r ddolen i wefan Teithio Llesol a oedd yn cynnwys dolenni at ddogfennau a chanllawiau dylunio. Roedd y terfynau amser ar y Map Rhwydwaith Integredig yn uchelgeisiol gan fod angen eu cyflwyno bob tair blynedd i ystyried cysylltiadau pellach. Byddai’r cynllun yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2020 gyda chyllid LlC ar gael o fis Ebrill, yn cael ei ddarparu fesul tipyn o bosib.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Evans a'u heilio gan y Cynghorydd Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi’r cynigion yn yr astudiaeth ac yn nodi'r cyfle i ddarparu cynllun cyffrous ac arloesol; a

(b) Bod y Pwyllgor yn argymell cyflwyno Cynllun Beicio’r Wyddgrug i Frychdyn fel cais strategol y Cyngor o dan gyllid Teithio Llesol Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

## 7. PAPUR BRIFFIO AR DERFYNAU CYFLYMDER GORFODOL O 20MYA YN SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) bapur briffio ar derfynau cyflymder gorfodol o 20mya yn Sir y Fflint. Roedd adroddiad a

baratowyd mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor wedi’i ddisodli gan gyhoeddiad Gweinidogaethol diweddar yn nodi cefnogaeth bod 20mya yn derfyn diofyn mewn ardaloedd preswyl ar draws Cymru. Disgwylir penderfyniad gan Brif Weinidog Cymru i nodi a fydd newid deddfwriaethol.

Amlinellodd y Rheolwr Cludiant – sy'n cynrychioli Gogledd Cymru ar weithgor gyda Llywodraeth Cymru i osod y polisi - y cefndir a'r trefniadau presennol yn Sir y Fflint. Cyfeiriodd at gynlluniau cyfannol sy’n cael eu gweithredu mewn rhai Siroedd mewn ymateb i bwysau lleol a’r trefniadau prawf sy’n cael eu gwerthuso mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Un o’r prif ystyriaethau oedd lefel adnoddau'r Heddlu i orfodi terfynau cyflymder; felly o dan y ddeddfwriaeth bresennol, roedd yn hanfodol bod cynigion terfynau cyflymder 20mya yn hunan-orfodi, naill ai drwy ymddygiad presennol gyrwyr neu drwy fesurau gostegu traffig pe bai’r terfyn presennol yn uwch na’r trothwy sy’n ofynnol. Oherwydd costau cyflwyno mesurau gostegu traffig, roedd newid mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru’n hanfodol i gyflawni’r dull mwyaf fforddiadwy o weithredu terfynau cyflymder gorfodol o 20mya. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor ar ôl derbyn penderfyniad gan Brif Weinidog Cymru.

Mynegodd y Cadeirydd ei safbwynt y dylai bod terfynau cyflymder 20mya cynghorol y tu allan i ysgolion yn Sir y Fflint yn orfodol nid cynghorol.

Roedd y Cynghorydd Paul Shotton yn cytuno â hyn gan gyfeirio hefyd at faterion parcio y tu allan i ysgolion sydd angen gorfodaeth gadarn. Ar y pwynt hwn, siaradodd y Cynghorydd Carolyn Thomas am gyllid a gafwyd ar gyfer camera gorfodi symudol y gellir ei ddefnyddio i wella diogelwch y tu allan i ysgolion. O ran terfynau cyflymder, nododd er bod rhai yn cefnogi terfynau gorfodol o 20mya, roedd eraill yn gwrthwynebu ar sail yr effaith ar lefelau llygredd.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Joe Johnson, eglurodd y Rheolwr Cludiant bod terfynau cyflymder yn cael eu gosod yn unol â meini prawf llym ac mae'n rhaid iddynt fod yn destun ymgynghoriad.

Siaradodd y Cynghorydd Sean Bibby o blaid y terfynau cyflymder gorfodol o 20mya y tu allan i ysgolion, gan gydnabod nad yw'n fater syml, a chodi pryderon am gapasiti'r Heddlu i'w gorfodi.

Siaradodd y Cynghorydd Chris Dolphin o blaid cyfyngu terfynau cyflymder ar ffyrdd ystadau.

## 8. RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol presennol i'w ystyried a chynghori'r Aelodau am weithdy Ailgylchu Gwastraff ar 3 Mehefin. Cytunwyd ar y newidiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

- Bod y cyfarfod nesaf yn cael ei symud i 9 Gorffennaf gydag eitem yn cynnwys Strategaeth Trafnidiaeth Integredig y Cyngor.
- Diweddariad ar Ddyffryn Maes Glas yng nghyfarfod mis Hydref.

- Ymweliad safle i Barc Adfer i'w gadarnhau ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd.
- Diweddariad ar derfynau cyflymder 20mya i'w drefnu ar ôl derbyn y newyddion diweddaraf.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i longyfarch y Cynghorwyr Carolyn Thomas a Joe Johnson ar eu penodiadau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei nodi, fel y'i diwygiwyd, a

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor.

## 9. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.30pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**